# Canser oesoffago-gastrig

## *Canser oesoffago-gastrig: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Ystyr canser oesoffago-gastrig yw canser yn y stumog (a elwir yn ganser gastrig) neu yn yr oesoffagws, y tiwb hir sy'n cario bwyd o'r geg i'r stumog (canser yr oesoffagws). Yn fwy anghyffredin, gall ddigwydd lle mae'r oesoffagws yn cysylltu â'r stumog. Mae canser oesoffago-gastrig wedi dod yn fwyfwy cyffredin dros y 30 mlynedd diwethaf. Caiff tua 13,000 o bobl ddiagnosis ohono bob blwyddyn – mae 9 o bobl 10 o'r bob hyn dros 50 oed.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â chanser oesoffago-gastrig drwy wneud canlynol:

- sicrhau y cewch gynnig y profion cywir i chi er mwyn rhoi'r wybodaeth orau i'ch tîm gofal am y math o ganser sydd gennych a cham y canser – bydd hyn yn eu helpu i gynllunio eich triniaeth
- sicrhau bod eich tîm gofal yn gweithio'n agos gyda chi er mwyn cytuno ar eich cynllun triniaeth, gan esbonio'r rhesymau o blaid ac yn erbyn pob opsiwn, yr hyn y mae'n ei olygu a sut y gall effeithio arnoch chi
- sicrhau eich bod yn cael cymorth arbenigol gan ddeietegydd a fydd yn eich helpu i newid eich deiet a'r ffordd rydych yn bwyta yn ystod eich triniaeth ac ar ôl hynny
- sicrhau y cynigir cwnsela i chi i'r bobl sydd agosaf atoch a chymorth arall i ddelio ag effeithiau canser oesoffago-gastrig ar eich bywyd – gall eich tîm gofal hefyd eich helpu i gysylltu â phobl eraill sydd â chanser oesoffago-gastrig.

### Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich tîm gofal roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r driniaeth sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Mae gan NHS Choices ragor o wybodaeth am ganser y stumog a chanser yr oesoffagws.

Dewch o hyd i'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol agosaf.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Ymchwil Canser y DU
- Heartburn Cancer UK
- Cymorth Canser Macmillan

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae canser oesoffago-gastrig wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-2793-7

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights